YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

CORFF CYNRYCHIOLWYR YR EGLWYS YNG NGHYMRU
THE REPRESENTATIVE BODY OF THE CHURCH IN WALES

Eich cyf / Your ref:

Ein cyf / Our ref: CA/KMP

Gorffennaf 2010

Annwyl Syr / Madam

Cymynroddion

Mae'r Eglwys yng Nghymru'n ceisio annog pobl sy'n dod i'r Eglwys i ystyried gadael cymynrodd i'r Eglwys pan fyddant yn gwneud eu hewyllys.

Os bydd cleient i chwi'n penderfynu gwneud hynny, mae'n debygol y cysylltir â chwi am gyngor ar sut y dylid drafftio'r gymynrodd. Mater rhyngoch chwi a'r cleient yw hynny, wrth gwrs, ond pwrpas y llythyr hwn yw ceisio cynorthwyo trwy dynnu eich sylw at nifer o ystyriaethau a all effeithio ar benderfyniad eich cleient ac y gall na fydd yn ymwybodol ohonynt. Gall y rhain gynnwys:

1. I osgoi rhai o'r anawsterau a nodir isod neu'r posibilrwydd o orfod gwneud cais at y Comisiwn Elusennau am Gynllun Mor Agos ag sy'n Bosibl, a yw eich cleient yn dymuno ystyried cymynrodd a fynegir mewn termau cyffredinol ynghyd â llythyr yn mynegi dymuniad?
2. Pwy fydd yn derbyn y gymynrodd? Cymdeithasau anghorfforaethol yw Cynghorau Plwyf Eglwysig (nid cyrff corfforaethol fel yn Lloegr) ond gallant dderbyn cymynroddion. Fodd bynnag, y mae ffiniau plwyfi'n newid o bryd i'w gilydd ac yn aml bydd enw'r plwyf yn newid ar yr un pryd. Ai'r bwriad yw rhoi'r gymynrodd i eglwys benodol, beth bynnag fydd strwythur y plwyf yn y dyfodol?
3. A oes gan eich cleient bwrpas penodol mewn golwg? Fel y gwyddoch, nid elusen yw cymynrodd at gynnal bedd arbennig ac ni ellir ei gorfodi, ond y mae ffyrdd o ddod dros yr anhawster hwn. Yn yr un modd gall cymynroddion at bwrpasau penodol, naill ai'n ymwneud â rhannau o'r adeilad neu â gweithgareddau penodol oddi mewn i'r eglwys, beri anhawster ymhen amser am y bydd dull yr eglwys o weithio yn newid.
4. A yw'r gymynrodd yn gymynrodd gyfalaf neu'n gymynrodd incwm yn unig? Os incwm yn unig, byddai fel rheol yn briodol ei gadael i Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru mewn ymddiriedolaeth i'r plwyf ar amodau penodol. Y rheswm am hyn yw bod Corff y Cynrychiolwyr, yn wahanol i Gynghorau Plwyf Eglwysig y mae eu swyddogion yn newid yn gyson, yn gorff corfforaethol ac yn gorfforaeth a awdurdodwyd i ddal ymddiriedolaethau.

Gall Adran Gyfraith y swyddfa hon fod o gymorth gyda chynseiliau oni ellir dod o hyd i rai addas yn y llyfrau a bydd yn falch hefyd o gynorthwyo hyd y bo modd i drafod ffyrdd eraill o weithredu.

Yr eiddoch yn gywir

C T W Anderson
Cyfreithiwr

DRAFT

39 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9XF 39 Cathedral Road, Cardiff CF11 9XF
Tel: 029 2034 8200 Fax: 029 2038 7835 **E** charlesanderson@churchinwales.org.uk
DX 141862 Cardiff 28